**EITEM AR YR AGENDA : 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**22 Medi 2014**

## ALLDRO AMCANOL 2014-2015

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2014-2015 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion cyfredol yw y bydd £381,218 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Awst, ac yn amcangyfrif y gwariant am 7 mis olaf y flwyddyn. Mae lefelau digwyddiadau yn ddigon tebyg i'r flwyddyn flaenorol ond mae 7 mis o'r flwyddyn i fynd eto, a gallai cyfnod o dywydd garw olygu y bydd angen adnoddau ychwanegol i ariannu ffioedd troi allan.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae’r rhan fwyaf o’r tanwariant ar gyflogau’n ymwneud â diffoddwyr tân amser cyflawn, a £472k yw’r amcangyfrif cyfredol. Mae amryw o ffactorau wedi cyfrannu at y tanwariant ar ddiffoddwyr tân amser cyflawn, gan gynnwys:-

- nifer y staff sy’n rhan o’r llu ond heb gael cyflog llawn oherwydd salwch neu absenoldeb mamolaeth;
- gofal dros absenoldeb yn cael ei ddarparu gan ddiffoddwyr tân Gwledig y System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDS) newydd gan arwain at arbedion ar gostau goramser;
- a llai o oriau gweithio oherwydd streiciau.

6 Y tanwariant a amcangyfrifir ar ddiffoddwyr tân y system RDS yw £77k. Defnyddiwyd rhywfaint o’r gyllideb hon i dreialu grŵp o 18 o ddiffoddwyr tân hyblyg i wella gofal tân, a’r enw ar y rhain yw diffoddwyr tân gwledig WDS.

7 Mae’r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud ag un swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

8 Gellir priodoli’r tanwariant ar Staff Cefnogol i nifer o swyddi yn cael eu llenwi’n hwyrach na’r disgwyl.

9 Gosodwyd y gyllideb Hyfforddi gan ddisgwyl y byddai grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dalu i wrthbwyso rhywfaint o’r gwariant. Fodd bynnag, tynnwyd y grant ymaith ar fyr rybudd felly mae’r alldro’n uwch ac yn adlewyrchu’r costau a ddisgwylir.

10 Mae’r gorwariant ar Bensiynau Diffoddwyr Tân oherwydd bod taliad ychwanegol am anaf wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ac nid oedd hyn yn hysbys pan osodwyd y gyllideb.

**Safleoedd**

11 Ar gyllideb y safleoedd bydd tanwariant ar Ardrethi Annomestig. Mae’r gostyngiad oherwydd newidiadau i werthoedd ardrethadwy nifer o safleoedd ar ôl i arbenigwr allanol gael ei gomisiynu i gynnal ailwerthusiad. Bu hyn o fudd mawr ac ad-daliadau’n cael eu hôl-ddyddio i 2010.

**Cludiant**

12 Yn gyffredinol amcangyfrifir bod tanwariant o £91k yn y gyllideb Cludiant. Costau ychwanegol yw'r rhain, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r diffoddwyr tân hyblyg WDS i ddarparu gofal mewn nifer o orsafoedd.

**Cyflenwadau**

13 Oherwydd y cynnydd yn nifer y diffoddwyr tân disgwylir y bydd angen prynu rhagor o gyfarpar amddiffyn personol, ac adlewyrchir hyn fel gorwariant dan y pennawd Gwisgoedd a Golchi.

14 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfrifiaduron ar ôl ailnegodi trwyddedau a chontractau cynnal a chadw, gan arwain at lai o gostau o'u cymharu â'r gyllideb wreiddiol.

15 Mae'r gorwariant ar gostau Cyfathrebu ohrewydd bod costau Firelink yn uwch na'r disgwyl oherwydd ffi mynegeio annisgwyl, ac mae dadlau ynghylch hyn.

16 Mae gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth yn bennaf oherwydd y ffordd o gyfrifyddu Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl fel cyfrif masnachu. Bydd unrhyw wariant yn uwch na'r incwm yn cael ei roi ar y cyfrif refeniw. Eleni amcangyfrifir fod hyn yn £18k. Bu cynnydd hefyd yn yr hawl i gynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol a deithwyd a'r oriau a weithwyd gan ddiffoddwyr tân yn darparu gofal mewn gorsafoedd gwledig. Disgwylir y bydd £7k o orwariant yn y gyllideb cynhaliaeth.

**Gwasanaethau Cefnogol**

17 Bydd cost Rheoli Cyfleusterau yn codi i'r Awdurdod eleni. Oherwydd cynnydd yn y prosiectau cyfalaf sy'n cael eu rheoli gan y tîm mae Rheolwr Prosiect ychwanegol wedi ei neilltuo i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, bydd y cynnydd yn y costau'n cael ei dalu drwy incwm ychwanegol oherwydd fod y costau hyn yn cael eu codi ar y rhaglen gyfalaf fel ffioedd.

## Cyllido Cyfalaf

18 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi angenrheidiol ar brosiect Wrecsam a'r ailamserlennu sydd yn yr arfaeth ar brosiectau Tywyn a Nefyn.

## Incwm

19 Yn gyffredinol amcangyfrifir y bydd yr incwm fymryn yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Bu gostyngiad derbyniol yn nifer y galwadau gwasanaeth arbennig ond arweiniodd hyn at godi llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Mae gostyngiad yn y grant Cynllunio at Argyfwng yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y costau dan y pennawd Cyd-Grŵp Gwasanaethau Brys. Fel y nodwyd eisoes mae'r incwm o ganlyniad i Ffioedd Cyfalaf wedi cynyddu yn unol â'r gwariant a fu.

## Tanwariant

20 Ar ôl dadansoddi patrymau gofal tân mae nifer o swyddi newydd wedi eu creu (paragraff 6) i ddarparu gofal yng Ngogledd Cymru. O ran yr ochr weithredol bu angen darparu cerbyd sy'n ddigon mawr i gludo'r cyfarpar sydd ei angen ar gyfer diffoddwyr tân 'symudol'. Ar hyn o bryd mae 15 o gerbydau wedi cael eu hurio ar gyfer hyn. Fodd bynnag, mae'n fwy buddiol, yn weithredol ac yn ariannol, i brynu'r cerbydau, ac unrhyw gyfarpar arall a allai fod yn angenrheidiol, drwy'r rhaglen gyfalaf, a'r gost a amcangyfrifir yw £300k. Er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol argymhellir bod cost y cerbydau a'r cyfarpar yn cael ei ariannu o'r tanwariant yn y flwyddyn gyfredol.

## Argymhelliad

21 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant a amcangyfrifir ac yn cytuno i neilltuo arian i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol.